

Dydd Mercher, 8 Gorffennaf 2026**Hysbysiad o gyfarfod:****Cyngor Sir****Dydd Iau, 16eg Gorffennaf, 2026, 2.00 pm,
Neuadd y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA****AGENDA**

Cynhelir gweddïau cyn y cyfarfod Cyngor am 13.50pm. Mae croeso i bob aelod ymuno â'r Cadeirydd ar gyfer hynny os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Eitem No	Eitem	Tudalennau
1.	Ymddiheuriadau am absenoldeb	
2.	Datganiadau o Fuddiant	
3.	Cwestiynau Cyhoeddus	
3.1.	Cwestiwn gan Kelvin Vater i'r Cynghorydd Sirol Catrin Maby, Aelod Cabinet dros Newid yn yr Hinsawdd a'r Amgylchedd Pam mae'r dystiolaeth a anfonwyd at y Cyngor ar ffurf Cyfrifiad 1881, ein cyfeiriad cofrestr etholiadol a deiseb a lofnodwyd gan 35 o drigolion y pentref - i gefnogi enw Cymraeg hanesyddol ein ffordd fel Banal Lane - yn cael ei hystyried yn amgylchiadol ac yn ddi-sail?	
4.	Cyhoeddiad y Cadeirydd	1 - 2
5.	I gadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25ain Mehefin 2026	3 - 16
6.	Ymateb i Gynnig y Cyngor: Adolygiad o Fuddsoddiadau'r Cyngor a'r Gronfa Bensiwn Fwyaf	17 - 38
7.	Cynigion i'r Cyngor	
7.1.	Cyflwynwyd gan y Cynghorydd Sirol Peter Strong	

Mae'r cyngor hwn yn nodi, ym manifesto Plaid Cymru ar gyfer etholiad diweddaraf y Senedd, fod ymrwymïadau wedi'u gwneud i adolygu a diwygio'r fformiwla ariannu Llywodraeth Leol, gan gynnwys y datganiadau: "A byddwn yn adolygu ac yn diwygio fformiwla ariannu llywodraeth leol er mwyn sicrhau ei bod yn adlewyrchu'n deg y realiti o wasanaethu poblogaethau gwledig yn bennaf" ac "Adolygu'r fformiwla gyllido ar gyfer llywodraeth leol fel ei bod yn adlewyrchu gwir gost darparu gwasanaethau mewn gwahanol rannau o Gymru yn well". Gallai unrhyw newidiadau i'r fformiwla ariannu Llywodraeth Leol gael goblygiadau sylweddol i awdurdodau lleol ledled Cymru, gan gynnwys Cyngor Sir Fynwy. Pwysigrwydd sicrhau bod unrhyw ddiwygiad i'r fformiwla ariannu yn adlewyrchu tegwch, tryloywder ac nad yw'n anfantais i gymunedau yn Sir Fynwy. Felly, mae'r cyngor hwn yn penderfynu: Ysgrifennu at Weinidog Cyllid Llywodraeth Cymru a'r Gweinidog Llywodraeth Leol, Tai a Chynllunio, yn gofyn am eglurhad brys ynghylch manylion, cwmpas a'r bwriad i weithredu'r ymrwymïadau a wnaed ynghylch diwygio fformiwla ariannu Llywodraeth Leol. Hefyd, ceisio sicrwydd na fydd unrhyw ddiwygiadau arfaethedig yn cael effaith niweidiol ar gymunedau yn Sir Fynwy. Gofynnwn i Gyngor Sir Fynwy ymgynghori'n llawn ar unrhyw newidiadau arfaethedig i'r fformiwla ariannu cyn eu gweithredu.

7.2. Cyflwynwyd gan y Cynghorydd Sirol Emma Bryn

Mae'r Cyngor yn nodi: Yr effaith sylweddol y mae'r cau lôn presennol ar Staunton Road (yr A4136) yn ei chael ar drigolion, busnesau, gweithredwyr cludiant cyhoeddus ac ysgol sy'n teithio rhwng Sir Fynwy a Swydd Gaerloyw. Y pryder cynyddol ymhlith trigolion ynghylch y diffyg sicrwydd ynghylch ateb parhaol i'r llithriad tir sy'n effeithio ar y briffordd.

Mae'r Cyngor hwn yn credu: Y dylai adfer yr A4136 i gyflwr sy'n darparu ar gyfer traffig dwyffordd yn ddiogel fod yn flaenoriaeth i'r Awdurdod. Bod trigolion a busnesau yn haeddu eglurder ynghylch dyfodol hirdymor y llwybr pwysig hwn. Bod tryloywder ynghylch yr opsiynau, costau ac amserlenni ar gyfer cyflawni yn hanfodol i gynnal hyder y cyhoedd.

Felly, mae'r Cyngor yn penderfynu: I ofyn i'r Aelod Cabinet sy'n gyfrifol am Briffyrdd gyflwyno adroddiad i'r Cyngor Llawn sy'n nodi: Datrysiaid hirdymor arfaethedig ar gyfer adfer yr A4136. Y gost amcangyfrifedig o ddarparu'r datrysiaid hwnnw. Gan gynnwys opsiynau cyllido. Yr amserlen a ragwelir ar gyfer cyflawni'r cynllun. Y risgiau sy'n gysylltiedig ag oedi neu beidio â bwrw ymlaen â'r opsiwn a ffefrir.

7.3. Cyflwynwyd gan y Cynghorydd Sirol Fay Bromfield

Mae'r Cyngor hwn:

Yn nodi'r nifer cynyddol o gynigion ar gyfer ffermydd ynni haul ar raddfa fawr ar y ddaear ar dir amaethyddol cynhyrchiol yn Sir Fynwy, gan gynnwys Fferm Ynni Haul Candwr arfaethedig rhwng Ponthir a Llangybi.

Yn credu y dylai datblygu ynni adnewyddadwy flaenoriaethu tir a ddatblygwyd o'r blaen, toeau masnachol a diwydiannol, adeiladau cyhoeddus, meysydd parcio a safleoedd tir llwyd addas eraill cyn ystyried ffermdir cynhyrchiol.

Yn pryderu am yr effaith gronol y gallai datblygiadau ynni haul ar

raddfa fawr lluosog ei chael ar dirwedd wledig y sir, yr economi amaethyddol, bioamrywiaeth, twristiaeth a diogelwch bwyd.

Yn penderfynu felly:

a) Sicrhau bod Adroddiadau Effaith Lleol y Cyngor ar Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol yn rhoi ystyriaeth lawn i golli tir amaethyddol, tirwedd ac effaith weledol a'r effaith ar fioamrywiaeth, priffyrdd a'r economi leol.

b) Ysgrifennu at y Gweinidog Cabinet dros Fenter, Cysylltedd ac Ynni yn galw am gryfhau fframweithiau a pholisïau cynllunio trwy gyflwyno rhagdybiaeth yn erbyn datblygiadau ynni haul ar raddfa fawr ar y ddaear ar dir amaethyddol o'r radd flaenaf.

c) Gofyn i Lywodraeth Cymru fabwysiadu dull "Toeau Cyn Caeau" o ymdrin ag ynni haul, gan flaenoriaethu toeau, tir llwyd a thir a ddatblygwyd yn flaenorol ar gyfer cynhyrchu pŵer ynni haul cyn ystyried tir amaethyddol cynhyrchiol.

7.4. Cyflwynwyd gan y Cynghorydd Sirol Tony Kear

Mae'r Cyngor hwn:

Yn nodi bod dulliau cyfredol o reoli chwyn yn dibynnu i raddau helaeth ar ddulliau llaw a mecanyddol, a all fod yn cymryd llawer o amser, a all difrodi priffyrdd a chodi pryderon am effeithiolrwydd.

Yn galw ar y Cabinet i gomisiynu adolygiad o'r Polisi Rheoli Chwyn, gan gynnwys: - Dadansoddiad cost-budd o ddulliau cyfredol ac amgen; asesiad o'r effaith amgylcheddol, effeithiolrwydd gweithredol a chostau bywyd cyfan; - ystyried dull Rheoli Chwyn Integredig sy'n cyfuno defnyddio chwynladdwyr wedi'i dargedu â dulliau nad ydynt yn gemegol lle bo hynny'n briodol; - nodi lleoliadau peilot, yn enwedig ger ysgolion, parciau ac ardaloedd amgylcheddol sensitif; ac - ymgynghori â thrigolion, cynghorau cymuned, grwpiau amgylcheddol a staff.

Yn disgwyl i'r canfyddiadau ac argymhellion, gan gynnwys unrhyw oblygiadau polisi neu gyllideb, gael eu hadrodd i'r Pwyllgor Craffu a'r Cabinet priodol o fewn chwe mis.

8. Cwestiynau'r Aelodau

8.1. O'r Cynghorydd Sirol Meirion Howells i'r Cynghorydd Sirol Mary Ann Brocklesby, Arweinydd y Cyngor

Yng ngoleuni'r cyfnod diweddar o dymheredd eithriadol o uchel, sydd wedi effeithio ar gymunedau ledled Sir Fynwy, a allai'r Arweinydd amlinellu pa fesurau y mae'r Cyngor wedi'u cymryd i gefnogi preswylwyr - yn enwedig unigolion agored i niwed fel yr henoed, plant ifanc, a'r rhai sydd â chyflyrau iechyd - yn ystod y don wres ddiweddar?

8.2. O'r Cynghorydd Sirol Jackie Strong i'r Cynghorydd Sirol Angelas Sandles, Aelod Cabinet dros Gydraddoldeb ac Ymgysylltu

A all yr aelod o'r Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed tuag at ddiogelu eiddo Cyngor Sir Fynwy yng Nghil-y-coed rhag

	gwersylloedd anawdurdodedig pellach?	
8.3.	O'r Cynghorydd Sirol Paul Pavia i'r Cynghorydd Sirol Paul Griffiths, Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Gynllunio a Datblygu Economaidd A wnaiff yr Aelod Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau i wella Cylchfan Highbeech yng Nghas-gwent?	
8.4.	O'r Cynghorydd Sirol Paul Pavia i'r Cynghorydd Sirol Catrin Maby, yr Aelod Cabinet dros Newid yn yr Hinsawdd a'r Amgylchedd A wnaiff yr Aelod Cabinet ddatganiad ar oblygiadau ariannol a gweithredol trosglwyddo fflyd y Cyngor o gerbydau nwyddau trwm, gan gynnwys lorïau sbwriel, i Gerbydau Allyriadau Isel Iawn?	
8.5.	O'r Cynghorydd Sirol Paul Pavia i'r Cynghorydd Sirol Laura Wright, yr Aelod Cabinet dros Addysg A wnaiff yr Aelod Cabinet ddatganiad am wydnwch ystâd ysgol Sir Fynwy i gyfnodau o wres eithafol, a chynlluniau'r cyngor i ymateb i amllder cynyddol digwyddiadau o'r fath?	
8.6.	O'r Cynghorydd Sir Lisa Dymock i'r Aelod Cabinet dros Adnoddau A all yr Aelod Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am statws cyfredol cyllid Adran 106 sy'n gysylltiedig ag ehangu Ysgol yr Eglwys yng Nghymru'r Archesgob Rowan Williams a datblygiad Heol yr Eglwys?	
8.7.	Gan y Cynghorydd Sirol Lisa Dymock i'r Aelod Cabinet dros Adnoddau, Cynllunio a Datblygu Economaidd A all yr Aelod Cabinet gadarnhau cyfanswm y gost i'r Cyngor o glirio ac adfer y safle yn dilyn y gweryll anawdurdodedig blaenorol, ochr yn ochr â Chlwb Criced Sudbrook ac Ysgol Gyfun Cil-y-coed?	
8.8.	O'r Cynghorydd Sirol Jan Butler i'r Cynghorydd Sirol Catrin Maby, Aelod Cabinet dros Newid yn yr Hinsawdd a'r Amgylchedd A all yr Aelod Cabinet Catrin Maby roi syniad i drigolion Goetre Fawr pryd y gallai gwaith atgyweirio ac ailosod wyneb newydd ddigwydd yn Lapstone Lane a Nant-y Derry Road o Neuadd Goetre i'r Bont Gadwyn?	
9.	Dyddiad y cyfarfod nesaf - 24ain Medi 2026	

Paul Matthews
Prif Weithredwr

CYNGOR SIR FYNWY

MAE CYFANSODDIAD Y PWYLLGOR FEL SY'N DILYN:

Cynghorwyr Sir:

Rachel Buckler
Laura Wright
Tony Kear
Catrin Maby
Jan Butler
Ian Chandler
Sara Burch
Alistair Neill
Su McConnel
Mary Ann Brocklesby
Fay Bromfield
Jane Lucas
Emma Bryn
Peter Strong
Meirion Howells
Paul Griffiths
Jackie Strong
Rachel Garrick
Maria Stevens
Steven Garratt
Angela Sandles
Ben Callard
John Crook
Tomos Davies
Dale Rooke
Sue Riley
Jayne McKenna
Jill Bond
Louise Brown
Lisa Dymock
Tony Easson
Christopher Edwards
Martyn Groucutt
Simon Howarth
Richard John
David Jones
Penny Jones
Malcolm Lane
Phil Murphy
Martin Newell
Paul Pavia
Maureen Powell
Frances Taylor
Tudor Thomas
Armand Watts
Ann Webb

Gwybodaeth Gyhoeddus

Mynediad i gopiâu papur o agendâu ac adroddiadau

Gellir darparu copi o'r agenda hwn ac adroddiadau perthnasol i aelodau'r cyhoedd sy'n mynychu cyfarfod drwy ofyn am gopi gan Gwasanaethau Democrataidd ar 01633 644219. Dylid nodi fod yn rhaid i ni dderbyn 24 awr o hysbysiad cyn y cyfarfod er mwyn darparu copi caled o'r agenda hwn i chi.

Edrych ar y cyfarfod ar-lein

Gellir gweld y cyfarfod ar-lein yn fyw neu'n dilyn y cyfarfod drwy fynd i www.monmouthshire.gov.uk neu drwy ymweld â'n tudalen Youtube drwy chwilio am MonmouthshireCC. Drwy fynd i mewn i'r ystafell gyfarfod, fel aelod o'r cyhoedd neu i gymryd rhan yn y cyfarfod, rydych yn caniatáu i gael eich ffilmio ac i ddefnydd posibl y delweddau a'r recordiadau sain hynny gan y Cyngor.

Y Gymraeg

Mae'r Cyngor yn croesawu cyfraniadau gan aelodau'r cyhoedd trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Gofynnwn yn barchus i chi roi rhybudd digonol i ni er mwyn darparu ar gyfer eich anghenion.

Siarad yn gyhoeddus yn y Cyngor Llawn

Gall aelodau'r cyhoedd gofrestru i ofyn cwestiwn gan aelodau'r cabinet mewn cyfarfodydd llawn y cyngor. Nid oes cyfleuster i'r cyhoedd gofrestru i siarad fel rhan o'r ddadl am eitem ar yr agenda mewn cyfarfodydd cyngor llawn. Cyfanswm yr amser a neilltuir ar gyfer pob cwestiwn mewn cyfarfod o'r cyngor llawn yw 15 munud.

Ni chaniateir mwy nag un cwestiwn fesul holwr mewn cyfarfod llawn o'r cyngor a gofynnir cwestiynau yn y drefn y cânt eu cyflwyno.

Er mwyn cyflwyno cwestiwn mewn cyfarfod llawn o'r cyngor, rhaid rhoi hysbysiad ysgrifenedig neu drwy e-bost i'r pennaeth gwasanaethau democrataidd heb fod yn hwyrach na hanner nos, tri diwrnod gwaith cyn diwrnod y cyfarfod, gyda phob cwestiwn yn rhoi enw a chyfeiriad yr holwr.

Gellir gwrthod cwestiynau os;

- Nad yw'n ymwneud â mater y mae gan y cyngor gyfrifoldeb amdano neu sy'n effeithio ar y sir
- Yw'n ddifenwol, yn wamal neu'n sarhaus
- Yw'n gwestiwn sydd i raddau helaeth yr un peth ag a ofynnwyd mewn cyfarfod o'r cyngor llawn yn y 6 mis diwethaf
- Yw'n gofyn am ddatgelu gwybodaeth gyfrinachol neu eithriedig

Pan na all person ofyn y cwestiwn i'r cyngor llawn yn bersonol, caiff y cadeirydd benderfynu darllen y cwestiwn yn uchel ar ei ran, cyfarwyddo y dylid darparu ymateb ysgrifenedig neu ddewis peidio ag ymdrin â'r cwestiwn yn ei absenoldeb. Bydd gan y rhai sy'n gofyn cwestiwn yn bersonol hawl i un cwestiwn atodol y mae'n rhaid iddo godi o'r cwestiwn gwreiddiol neu'r ateb. Gall y cadeirydd wrthod cwestiwn atodol ar y seiliau hyn.

Bydd unrhyw gwestiynau na ellir delio â nhw yn y cyfarfod oherwydd y terfyn amser ar gyfer cwestiynau cyhoeddus yn cael eu hateb drwy ymateb ysgrifenedig.

Nodau a Gwerthoedd Cyngor Sir Fynwy

Ein Pwrpas

- i ddod yn sir ddi-garbon, gan gefnogi lles, iechyd ac urddas i bawb ar bob cam o'u bywydau.

Amcanion rydym yn gweithio tuag atynt

- Lle teg i fyw lle mae effeithiau anghydraddoldeb a thlodi wedi'u lleihau;
- Lle gwyrdd i fyw a gweithio gyda llai o allyriadau carbon a gwneud cyfraniad cadarnhaol at fynd i'r afael â'r argyfwng yn yr hinsawdd a natur;
- Lle ffyniannus ac uchelgeisiol, lle mae canol trefi bywiog a lle gall busnesau dyfu a datblygu;
- Lle diogel i fyw lle mae gan bobl gartref maen nhw'n teimlo'n ddiogel ynddo;
- Lle cysylltiedig lle mae pobl yn teimlo'n rhan o gymuned ac yn cael eu gwerthfawrogi;
- Lle dysgu lle mae pawb yn cael cyfle i gyrraedd eu potensial.

Ein Gwerthoedd

Bod yn agored. Rydym yn agored ac yn onest. Mae pobl yn cael cyfle i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, dweud beth sy'n bwysig iddynt a gwneud pethau drostynt eu hunain/eu cymunedau. Os na allwn wneud rhywbeth i helpu, byddwn yn dweud hynny; os bydd yn cymryd peth amser i gael yr ateb, byddwn yn esbonio pam; os na allwn ateb yn syth, byddwn yn ceisio eich cysylltu gyda'r bobl a all helpu - mae adeiladu ymddiriedaeth ac ymgysylltu yn sylfaen allweddol.

Tegwch. Darparwn gyfleoedd teg, i helpu pobl a chymunedau i ffynnu. Os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn deg, byddwn yn gwrandao ac yn esbonio pam. Byddwn bob amser yn ceisio trin pawb yn deg ac yn gyson. Ni allwn wneud pawb yn hapus bob amser, ond byddwn yn ymrwymo i wrando ac esbonio pam y gwnaethom weithredu fel y gwnaethom.

Hyblygrwydd. Byddwn yn parhau i newid a bod yn hyblyg i alluogi cyflwyno'r gwasanaethau mwyaf effeithlon ac effeithiol. Mae hyn yn golygu ymrwymiad gwirioneddol i weithio gyda phawb i groesawu ffyrdd newydd o weithio.

Gwaith Tîm. Byddwn yn gweithio gyda chi a'n partneriaid i gefnogi ac ysbrydoli pawb i gymryd rhan fel y gallwn gyflawni pethau gwych gyda'n gilydd. Nid ydym yn gweld ein hunain fel 'trefnwyr' neu ddatrysyr problemau, ond gwnawn y gorau o syniadau, asedau ac adnoddau sydd ar gael i wneud yn siŵr ein bod yn gwneud y pethau sy'n cael yr effaith mwyaf cadarnhaol ar ein pobl a lleoedd.

Caredigrwydd – Byddwn yn dangos caredigrwydd i bawb yr ydym yn gweithio gyda nhw, gan roi pwysigrwydd perthnasoedd a'r cysylltiadau sydd gennym â'n gilydd wrth wraidd pob rhyngweithio.